Rhaglen Waith Ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Safonau 2022/23

Rhif	Eitem	Camau	Cwblhawyd / Camau Pellach
1	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor llawn	Pwyllgor i ddechrau ystyried yr Adroddiad Blynyddol nesaf a dechrau gweithio arno cyn eu cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin, 2022. Rhannu'r adroddiad blynyddol (ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Cyngor) gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)?	Adroddiad drafft wedi cael ei ystyried yn ystod y cyfarfod anffurfiol ar 28/3/2022. Gwaith ar y gweill ar gyfer ei gyflwyno yn y cyfarfod ar 28/6/2022.
2	Adolygu'r Protocol Datrys yn Lleol	Diwygiwyd ym mis Mawrth 2022 - efallai y bydd angen adolygiad pellach yn dilyn trafodaethau gydag arweinwyr grŵp. Adroddiad o achosion anhysbys a gafodd eu datrys o dan brosesau datrys yn lleol i OGCC?	Wedi'i ddiwygio ym mis Mawrth 2022 – angen gwaith pellach. OGCC wedi cyhoeddi 'model' o brotocol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.
3	Cynnig a Darparu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol. Angen penderfynu: • Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant • Cyfranogiad aelodau'r pwyllgor safonau • Cynnwys uwch swyddogion?	Angen trafod gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r gwasanaethau democrataidd. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud ar ddechrau pob gweinyddiaeth ac o fewn 6 mis i'r etholiadau a rhaid eu hadolygu'n flynyddol o leiaf.	Wedi trafod gydag Adnoddau Dynol. Wedi gwneud ymholiadau gyda CLlLC ynghylch unrhyw hyfforddiant pwrpasol sydd ar gael.
4	Cyfathrebu gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol	Proses adrodd ffurfiol neu fwy anffurfiol ar gyfer arweinwyr? Amlder yr adroddiadau gan arweinwyr grŵp? Trefnu cyfarfodydd yn gyfnodol i adolygu ymddygiad?	Wedi cyfarfod ar 8/3/21 a 27/5/21
5	Ymyrryd/hysbysu yn achos cwynion lefel isel, rhai o fewn grwpiau heb eu hadrodd i OGCC.	Angen gweld ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Penn. Rhaid i unrhyw adroddiadau fod yn anhysbys.	Wedi cyfarfod ar 8/3/21 a 27/5/21

6	Cyfarfodydd	Cyfarfod ffurfiol diwethaf 15/12/2021 Yn y cyfarfodydd anffurfiol ystyriwyd: • ymgynghoriad LlC ar y canllawiau statudol drafft ar safonau ymddygiad • adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor i'r Cyngor llawn • rhaglen waith 22/23 Cynhelir y cyfarfod ffurfiol nesaf ar 28/6/2022.	Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol ar 28/3/2022 a 27/4/2022
7	Newyddlenni yn dilyn y cyfarfod ffurfiol ar 15.12.2021	Aelodau i ystyried yr ymatebion dilyn i fyny gan nifer o gynghorau tref a chymuned yn dilyn trafodaeth ar y Newyddlenni yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2021.	
8	Adrodd am gwynion – Adroddiadau Diweddaru Chwarterol	Angen gweithio ar weithdrefn fel y gall aelodau'r Pwyllgor gadarnhau a bod yn sicr nad ydi achosion sy'n cael eu cyfeirio at OGCC yn dangos unrhyw dueddiadau o ran ymddygiad gwael. Bydd y broses hon yn cynnal a pharchuunrhyw ofynion cyfrinachedd gan OGCC mewn perthynas â'r materion hyn.	
9	Y Pwyllgor Safonau i Arsylwi gwaith Pwyllgorau Cyhoeddus a'r Cyngor llawn	Yn dilyn y penderfyniad y byddai aelodau'r Pwyllgor yn arsylwi trafodion cyfarfodydd ffurfiol, cyfarfodydd cyhoeddus Pwyllgorau penodol o'r Cyngor (Sgriwtini a Chynllunio) a chyfarfodydd o'r Cyngor llawn, hysbyswyd yr Arweinwyr Grŵp bod y trefniant hwn bellach yn weithredol.	Adroddiad *pro-forma* i'w ddatblygu i sicrhau bod yr holl faterion yn cael eu cofnodi.

		Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor sy'n dymuno ymgymryd â'r rôl arsylwi hon roi eu henwau ymlaen fel y gellir llunio amserlen a phennu cyfrifoldebau yn unol â hynny.	
10	Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau		Trafodaethau gydag Adnoddau Dynol yn mynd rhagddynt.
11	Sut i gwyno	Ystyried sut i hyrwyddo sut i wneud cwyn yn erbyn aelodau etholedig unwaith y cytunir ar y broses ar gyfer cwynion 'lefel isel' yn dilyn Adolygiad Penn ac ymateb LlC.	